

**Cynllun Sesiwn – Cyfnod Allweddol 2**

Enw'r hyfforddai:

Cyfeirnod Sesiwn:

Targed(au) personol o ran SAC:

Grŵp blwyddyn: **4**Nifer y dysgwyr: **21**

ADY(ALN): Dosbarth gallu cymysg,
1 CAU (ymddygiad)
2 CAU (llythrennedd/rhifedd)

Oedolion ychwanegol:

Dim

Nod(au) dysgu:

Ystyried sut mae lleoedd ac amgylcheddau wedi'u cysylltu

Meini prawf llwyddiant:

- canfod a lleoli lleoedd gan ddefnyddio mapiau
- defnyddio geirfa addas i ddisgrifio teithiau a chyfeiriad
- mynegi barn bersonol a sylweddoli bod gwahanol safbwyntiau gan bobl

Amser	Gweithgareddau, trefnu a rheoli'r sesiwn	Cwestiynau allweddol / Asesu ar gyfer dysgu
5-10 mun	Cyflwyniad Lleoli CN a Phentywyn ar fap Defnyddio gwefan <i>Clicmap</i> ar y B.G.Rh. er mwyn adolygu lleoliad y ddau le. Defnyddio termau addas i ddisgrifio'r ddau leoliad. Sôn am ein teithiau diweddar i Bentywyn, Beth oedd cyfeiriad cyffredinol y daith? Sut wnaethom deithio? Esbonio ein bod yn mynd i edrych yn fanylach ar y daith heddiw a bod angen cyd-weithio mewn grwpiau.	Dewis ar hap – disgyblion i ddod i nodi'r lleoliadau ar y map rhyngweithiol Partneriaid parablu – trafod y ddau leoliad gan ddefnyddio geirfa o wersi blaenorol. "Sut allwch ddisgrifio'r ddau leoliad mewn brawddeg?" E.e. Mae CN yn fwy gogleddol na Phentywyn. Mae Phentywyn yn agos i'r arfordir.
40 mun	Prif weithgareddau Gweithgareddau Gwahaniaethol: Cyrhaeddiad is / canolig: Beth yw cyfeiriad y daith i Bentywyn? Pa leoliadau rydym yn mynd trwyddynt? Astudio map yn nodi'r daith i o Gastell Newydd Emlyn i Bentywyn. Darllen y map i weld pa leoliadau aethpwyd trwyddynt. Dwy fersiwn o'r weithgaredd (plant i roi cynnig ar yr un maent yn teimlo sy'n addas iddynt neu cyfuno'r ddwy os dymunant). Fersiwn symlach yn trefnu lluniau o'r lleoliadau. Fersiwn cyrhaeddiad canolig yn nodi enwau'r lleoliadau mewn trefn Her: Dyfalu pellter y daith ar post-it. Trefnu'r amcangyfrifon yn ôl pellter o'r byrraf i'r hiraf. Defnyddio gwefan RAC Routefinder i wirio. Pwy sydd agosaf ati?	Cyrhaeddiad is / canolig: Beth ydych yn sylwi am gyfeiriad y daith? Ydy pob taith yr un peth? Sut mae dy daith di yn cymharu gyda un dy bartner? Beth sy'n debyg / gwahanol? Defnyddio'r mapiau i asesu gwaith ei gilydd. Ydy trefn y lleoliadau'n gywir?

	Cyrhaeddiad uwch: Cymharu gwahanol deithiau i Bentywyn mewn car ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. I ba gyfeiriad rydym yn teithio? Astudio map o Dde Cymru er mwyn amcangyfrif hyd y daith o Gastell Newydd Emlyn i Bentywyn. Dyfalu hyd y daith mewn car. Chwilio'r ateb cywir ar 'route planner' gwefan RAC a'i nodi ar y daflen. Cyfrif y gwahaniaeth rhwng hyd y teithiau mewn munudau. Her: Gwneud yr un peth ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus. Defnyddio 'App' <i>Traveline Cymru</i> i'w helpu. Dod i gasgliad a chymharu hyd y teithiau: car, bws trip yr ysgol a thrafnidiaeth gyhoeddus.	Cyrhaeddiad uwch: Bod wrth law i arwain eu trafodaethau ar y gymhariaeth rhwng y teithiau: car, bws trip yr ysgol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Sgiliau meddwl a thrafod: Beth sy'n debyg? Beth sy'n wahanol? Rhesymau posib dros hyn? Anfanteision a manteision i'r gwahanol deithiau?
10-15 mun	Diwedd glo Adrodd yn ôl Gweithgaredd AaGD Her 'Post-it Challenge' Beth maent wedi ei ddysgu? "Rydw I wedi dysgu..." Beth yw eu casgliadau? "Yn fy marn i..." Gweithgaredd Glo: 'Dewis o atebion' Cyfle i fyfyrwyr ar ein dewis o drafnidiaeth. Edrych ar ddewis o atebion am sut i deithio o GN i Bentywyn. Pleidleisio gyda'r un maent hwy'n cytuno gryfaf gydag ef.	AaGD: Her 'Post-it Challenge' "Rydw i wedi dysgu..." 'Dewis o atebion' Derbyn bod gwahanol farn gyda gwahanol bobl. Deall pwysigrwydd cynnig rheswm i gefnogi barn.